



Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Llywio'ch Ffordd trwy Wasanaethau Cymdeithasol

Daflen Ffeithiau 1: Cyflwyniad i'r Ddeddf

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 029 2044 5030

E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com

Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Trydar: [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)

Cyflwyniad i'r Ddeddf

Mae [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) yn un o gyfreithiau Cymru. Ei nod yw sicrhau bod y gofal a'r cymorth a gewch yn diwallu eich anghenion personol chi, ac yn eich helpu i fyw'r bywyd a ddewiswch ac i fod yn annibynnol am hirach. Daeth i rym ar 6 Ebrill 2016 a newidiodd sut mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu ar draws Cymru gyfan. Nod y Ddeddf yw creu dull cenedlaethol ar gyfer Awdurdodau Lleol er mwyn iddynt hybu llesiant a diogelu pobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod gofalmwyr yn cael eu trin ar yr un telerau â'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a bod ganddynt hwythau hawl i gael help os yw asesiad yn dangos bod ei angen arnynt. Nid oes trothwy o ran oriau gofalu er mwyn bod yn gymwys i gael asesiad gofalwr.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cymdeithasol ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i chi. Mae'r dull hwn yn ymwneud â dod o hyd i'r atebion cywir i chi, drwy weithio gyda chi. Mae'n rhoi mwy o lais i chi a'ch teulu o ran sut byddwch chi'n cael gwasanaethau gofal a chymorth (neu wasanaeth cymorth os ydych chi'n ofalwr).

Dyma brif egwyddorion y Ddeddf:

- **Llais a rheolaeth** - sicrhau eich bod chi a'ch anghenion wrth wraidd y gofal, a rhoi llais a rheolaeth i chi dros eich gofal a'ch cymorth.
- **Atal ac ymyrryd yn fuan** – cynyddu nifer y gwasanaethau yn y gymuned a fydd yn helpu i atal, lleihau neu oedi anghenion cymorth, lleihau effeithiau anabledau a hybu annibyniaeth.
- **Llesiant** - eich cefnogi chi i wella eich llesiant a mesur pa mor dda y mae'r gofal a'r cymorth a roddir i chi yn gwneud hyn.
- **Gweithio gyda'n gilydd (Cyd-gynhyrchu)** - eich annog chi i gymryd mwy o ran yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu i bobl?

Mae cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn golygu:

- Bod gan bawb yng Nghymru hawl i lesiant. Rhaid i'r Awdurdod Lleol wneud ei orau i'ch helpu chi (a'ch gofalwr) i wella eich llesiant.

Mae 'llesiant' yn golygu bod pobl yn:

- Hapus yn gorfforol, yn feddyliol ac yn emosiynol
- Gallu mwynhau eu hawliau
- Cael mynediad at addysg, hyfforddiant, chwaraeon a chyfleoedd chwarae
- Cael eu diogelu rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod
- Cael perthynas bositif â theulu a ffrindiau
- Cael bywyd cymdeithasol a digon o arian i fyw bywyd iach
- Cael cartref da
- Rhan o'r gymuned

Rhaid i Awdurdod Lleol sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gael yn rhwydd i bawb ynghylch gwasanaethau gofal a chymorth. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr hefyd.

Mae gennych chi'r hawl i gael rheolaeth dros y cymorth sydd ei angen arnoch ac i wneud penderfyniadau am y gofal a'r cymorth a gewch fel partner cyfartal. Rhaid i Awdurdod Lleol ragdybio mai chi yw'r un gorau i leisio barn ar eich llesiant eich hun ac i wybod beth sydd orau i chi.

Mae gennych chi hawl i gymryd rhan mewn trafodaethau am eich gofal a'ch cymorth. Rhaid i Awdurdod Lleol ganfod a gwrando ar eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau. Rhaid iddyn nhw feddwl a oes angen eiriolwr proffesiynol annibynnol arnoch chi i'ch galluogi i gymryd rhan lawn ym mhrosesau asesu, cynllunio gofal a chymorth, adolygu a diogelu. Mae gennych chi hawl i gael eiriolwr proffesiynol annibynnol a ddarperir yn rhad ac am ddim os oes gennych anawsterau penodol wrth fynegi eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn canolbwyntio ar wneud yn siŵr eich bod yn cael yr help iawn ar yr adeg iawn. Mae gennych chi hawl i gael asesiad o angen os yw'n ymddangos bod angen gwasanaethau gofal a chymorth arnoch chi (neu angen am wasanaethau cymorth os ydych chi'n ofalwr).

Wrth gynnal asesiad o angen, rhaid i Awdurdod Lleol asesu'r hyn yr hoffech ei gyflawni yn eich bywyd o ddydd i ddydd

– y canlyniadau yr hoffech eu cyflawni. Rhaid iddynt wedyn asesu a fyddai gwybodaeth, cyngor a chymorth (IAA), gwasanaethau ataliol neu wasanaethau gofal a chymorth yn eich helpu i gyflawni eich canlyniadau. Rhaid i'r Awdurdod Lleol hefyd asesu a allai help heblaw am gymorth gan yr Awdurdod Lleol eich helpu i gyflawni eich canlyniadau.

O dan y Ddeddf, mae Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol a fydd yn cael eu defnyddio gan bob Awdurdod Lleol. Os byddwch yn bodloni gofynion y meini prawf, bydd gennych chi hawl i gael gofal a chymorth a hawl i gael Cynllun Gofal a Chymorth (neu Gynllun Cymorth os ydych chi'n ofalwr). Mae gennych chi hawl i fod yn rhan o'r broses o lunio eich Cynllun Gofal a Chymorth (neu Gynllun Cymorth).

Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am eich gofal a chymorth (neu eich cymorth os ydych chi'n ofalwr). Mae gennych chi hawl i gael asesiad ariannol i benderfynu faint y gallwch fforddio'i dalu. (Mae uchafswm ar gyfer tâl wythnosol am ofal yn y cartref, ond nid yw hyn yn wir am ofal preswyl). O dan y Ddeddf, bydd asesiadau ariannol yn gorfod dilyn yr un rheolau ym mhob rhan o Gymru.

Mae gennych chi hawl i gael taliad uniongyrchol os hoffech drefnu a thalu am eich gwasanaethau gofal a chymorth eich hun (neu wasanaethau cymorth os ydych chi'n ofalwr) yn hytrach na'u cael yn uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol.

Mae'r Ddeddf wedi cryfhau'r pwerau i ddiogelu pobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. O dan y Ddeddf, mae rhywun yn cael ei ystyried yn 'oedolyn mewn perygl' os oes prawf fod yr unigolyn yn profi camdriniaeth neu esgeulustod (neu mewn perygl o brofi hyn) ac nad oes modd iddynt amddiffyn eu hunain a bod ganddynt anghenion gofal a chymorth (nid yw o bwys a yw'r Awdurdod Lleol yn diwallu'r anghenion hyn ai peidio ar hyn o bryd). Os yw Awdurdod Lleol yn amau bod oedolyn mewn perygl, rhaid iddo ymchwilio i'r achos er mwyn penderfynu pa gamau y dylid eu cymryd.

Wrth wneud penderfyniadau am eich angen am ofal a chymorth (neu gymorth os ydych chi'n ofalwr), rhaid i Awdurdod Lleol gydymffurfio ag Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.

Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

Mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn yn ganllawiau sy'n amlinellu sut dylai pobl hŷn gael eu trin mewn agweddau allweddol ar eu bywydau. Mae'r Egwyddorion wedi cael eu grwpio o dan bum thema:

- annibyniaeth
- cyfranogiad
- gofal
- hunan-gyflawniad
- urddas

Am ragor o wybodaeth am yr Egwyddorion, ewch i <http://www.olderpeoplewales.com/cy/about/un-principles.aspx>

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi mynnu bod y ddeddf yn cydymffurfio ag Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn i sicrhau bod hawliau holl bobl hŷn Cymru'n cael eu parchu – gellir defnyddio'r Egwyddorion i gadarnhau eich hawl i 'lesiant'.

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rhaid i Awdurdod Lleol roi 'sylw dyladwy' i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn. Mae gennych chi hawl i 'sylw dyladwy' gael ei roi i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn pan fydd penderfyniadau am eich gofal a chymorth (neu gymorth os ydych chi'n ofalwr) yn cael eu gwneud.

Mae 'sylw dyladwy' yn golygu bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol:

- Ystyried Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn cyn ac ar yr adeg pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud a fydd neu a all effeithio ar bobl hŷn.
- Ystyried Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn trwy gydol y broses benderfynu. Nid yw'n ddigon i ddefnyddio Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn i gyfiawnhau penderfyniad ar ôl iddo gael ei wneud.
- Defnyddio eu dyletswydd i gael 'sylw dyladwy' mewn ffordd sy'n dylanwadu ar y penderfyniad terfynol.
- Ymgorffori'r ddyletswydd i roi 'sylw dyladwy' mewn ffordd sy'n ystyrlon – mae'n golygu mwy na dim ond ticio blychau.
- Peidio â dirprwyo'r ddyletswydd i roi 'sylw dyladwy' – yr Awdurdod Lleol fydd y corff sy'n gyfrifol amdano bob amser.
- Cadw cofnod manwl i ddangos sut maent wedi ystyried eu dyletswydd (arfer da).

